



Getting a Gym Membership

Welsh Conversation

**Master a language
for free with Ablas**

- ✓ 1500+ words in 7 languages
- ✓ Level up with fun games
- ✓ Browse stories and conversations



Conversation

	English	Welsh
	Samantha is heading to the gym to buy a new membership. As she enters the gym, she is greeted by Leo at the front desk.	Mae Samantha yn mynd i'r gampfa i brynu aelodaeth newydd. Wrth iddi fynd i mewn i'r gampfa, mae Leo yn ei chyfarch wrth y ddesg flaen.
Leo:	Hello, how can I help you?	Helô, sut alla i'ch helpu chi?
Samantha:	Hello, I'd like to get a membership.	Helô, hoffwn ddod yn aelod.
Leo:	Of course, our basic membership is 23 euros a month. Are you willing to take part in our training sessions, or do you just want gym access?	Wrth gwrs, cost ein haelodaeth sylfaenol yw 23 ewro'r mis. Ydych chi'n barod i gymryd rhan yn ein sesiynau hyfforddi, neu ydych chi ond eisiau mynediad i'r gampfa?
Samantha:	It all depends on if I'm free at the time. Do I need to pay extra for those sessions?	Mae'n dibynnu a ydw i'n rhydd ar y pryd. Oes angen i mi dalu mwy am y sesiynau hynny?
Leo:	You can either only pay for the sessions that you attend; otherwise, we can include them in your membership for 5 euros extra a month.	Fe allwch chi naill ai dalu am ddim ond y sesiynau rydych chi'n eu mynychu, neu fe allwn ni eu cynnwys yn eich aelodaeth am bum ewro ychwanegol y mis.
Samantha:	I see. Let's go with the basic membership for now.	Deall. Beth am i ni fynd gyda'r aelodaeth sylfaenol am y tro.
Leo:	No problem, I'd just need to take a few details first...	Dim problem. Byddai angen i fi gymryd ychydig o fanylion yn gyntaf...

	English	Welsh
	Leo takes Samantha's personal details and sets up a new membership, giving her a key card to access the facilities. He then shows her around the gym.	Mae Leo yn cymryd manylion personol Samantha ac yn sefydlu aelodaeth newydd, gan roi cerdyn allwedd iddi i gael mynediad at y cyfleusterau. Yna mae'n ei dangos hi o gwmpas y gampfa.
Leo:	So we have cardio machines upstairs on the mezzanine, and the weights are just over here.	Felly mae gynnnon ni beiriannau cardio i fyny'r grisiau ar y mesanîn, ac mae'r pwysau fan acw.
Samantha:	That's great! Can I take a look upstairs?	Gwych! Ydw i'n gallu cael golwg i fyny'r grisiau?
Leo:	Of course, follow me.	Wrth gwrs, dilynwch fi.
	Leo leads Samantha upstairs to the cardio machines and shows her around.	Mae Leo yn arwain Samantha i fyny'r grisiau at y peiriannau cardio ac yn ei dangos hi o gwmpas.
Samantha:	I don't see any rowing machines here. Do you have one?	Dydw i ddim yn gweld unrhyw beiriannau rhwyfo yma. Oes gynnoch chi un?
Leo:	Unfortunately, the one we had broke, but we're looking to replace it by the end of the month.	Yn anffodus, fe dorrodd yr un oedd gynnnon ni, ond rydyn ni'n chwilio am un i gymryd ei le erbyn diwedd y mis.
Samantha:	I see, no worries. And I can come here any day of the week?	Deall, dim problem. Ydw i'n gallu dod yma unrhyw ddiwrnod o'r wythnos?

	English	Welsh
Leo:	Yes, the gym is open 24/7, so feel free to come in at any time.	Gallwch. Mae'r gampfa ar agor 24/7, felly mae croeso ichi ddod i mewn unrhyw bryd.
Samantha:	I was also wondering if I could bring my friend with me. She's a bit reluctant to join a gym and wanted to see what it was like first.	Roeddwn i hefyd yn meddwl tybed a allwn i ddod â fy ffrind gyda fi. Mae hi braidd yn gyndyn i ymuno â champfa ac roedd hi eisiau gweld sut brofiad oedd hi gyntaf.
Leo:	That's fine. Your membership allows you to bring a friend up to 5 times a month. Your friend would just need to sign in at the front desk.	Bydd hynny'n iawn. Mae eich aelodaeth yn caniatáu ichi ddod â ffrind hyd at bum gwaith y mis. Byddai angen i'ch ffrind lofnodi wrth y ddesg flaen.
Samantha:	Perfect, thanks.	Perffaith, diolch.
Leo:	Did you have any other questions about the gym?	Oes gynnoch chi unrhyw gwestiynau eraill am y gampfa?
Samantha:	No, I think we've covered everything. Thanks very much.	Na, dwi'n meddwl ein bod ni wedi cwmpasu popeth. Diolch yn fawr.
Leo:	You're welcome. I'll be at the front desk if you need anything else.	Croeso. Bydda i wrth y ddesg flaen os oes angen unrhyw beth arall.